# Cwmni

**Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi**

Rhifyn 235 | Pris £1 | Mis Mehefin 2021




## Harry Williams
**Ffotograffydd**




Os buoch yn gwrando ar Aled Hughes ar Radio Cymru neu'n gwylio 'Heno' ar S4C yn ystod wythnos gyntaf mis Mai, byddwch wedi mwynhau erthyglau am gamp anhygoel un o Gymry Cymraeg bro Cwm*ni.* Harry Williams, sy'n enedigol o Bontyberem, oedd gwrthrych y rhaglenni hyn, oherwydd roedd Harry, sy'n ffotograffydd proffesiynol ers blynyddoedd, newydd ennill cystadleuaeth ryngwladol.

Rhyngwladol! Roedd 80,000 o luniau wedi'u gyrru i mewn o 96 o wahanol wledydd at sylw dim llai na hanner cant o feirniaid. Sector ffotograffiaeth *Food in the Field* oedd un o'r 25 categori yn *y "Pink Lady Food Photographer of the Year Awards 2021".* Os nad ydych eisoes yn gwybod hynny, afalau o Awstralia yw *Pink Lady,* noddwyr y gystadleuaeth. Ac nid yn unig Radio Cymru ac S4C roddodd sylw i'r digwyddiad, oherwydd darlledwyd manylion y gystadleuaeth ar deledu byd eang, a gellir cael mwy o fanylion am hyn drwy fynd i *"Pink Lady Food Photographer of the Year Awards 2021"*ar *YouTube*.

Ond, wrth gwrs, mae stori y tu ôl i'r llun bob amser ac felly gyda'r ffotograff buddugol a welwch ar y clawr. Ac ni chafwyd egwyl fwy difyr na'r un a gafwyd wrth wrando ar Harry yn sôn am sut aeth ati i dynnu'r llun gwych yma. Cafodd e syniad a mynd ati i gysylltu'n syth â'i ffrind Bernard Llewellyn, perchennog Castell Carreg Cennen, ac un sydd yn cadw gwartheg *rare breed long horn.* Safodd Harri'n amyneddgar yng nghanol y glaw gan ddisgwyl i'r niwl godi o'r cwm. Ond rhaid oedd disgwyl i'r niwl godi cyn i'r haul ddiflannu y tu ôl i gwmwl! Ac yna, aros i ben y ceffyl, a welir ar y chwith, gwrdd â lein y gorwel oedd yn mynd i fyny tua'r castell ac i lawr ochr draw i drwyn y fuwch. A dyna sut cafwyd y llun buddugol sydd ar y clawr.

Ond dyw'r disgwyl a'r aros amyneddgar yn ddim byd newydd i ffotograffydd proffesiynol. Rydym ni amaturiaid yn "clicio" ar yr hyn a welwn, neu'r hyn yr ydym yn tybied ein bod yn ei weld. Ond, ys dywed Harri, "Dyw pobol ddim mewn gwirionedd yn gweld yr hyn maen nhw'n edrych arno." Mae'r arbenigwr, ar y llaw arall, yn disgwyl am hydoedd tan fydd y goleuni a'r tywydd yn gyffredinol yn datblygu i fannau sy'n ateb ei ofynion neilltuol e.

Does dim byd yn darlunio hyn yn well na stori Harry amdano'n derbyn comisiwn i dynnu llun ar gyfer agoriad swyddogol y twnnel newydd rhwng Lloegr a Ffrainc. Synnodd Bernard Llewellyn o dderbyn cais Harry am ddod draw i Sir Gaerfyrddin ar ddiwrnod glawog, stormus, ond dyna'r union sefyllfa oedd Harry yn ei dymuno. Roedd galw am *hoarding* 50 troedfedd o hyd a deg troedfedd o uchder i fynd wrth fynedfa'r twnnel, ar gyfer seremoni yn costio £100,000 +. Roedd mawrion y genedl yno, gan gynnwys Gweinidogion y Goron, i fynychu'r digwyddiad. Bu galw am lun o gastell a chafodd Harry saith wythnos i wneud un! Pam saith wythnos? Achos roedd yn rhaid dod o hyd i'r llun perffaith.

Beth, felly, yw'r gwahaniaeth rhyngom ni â ffotograffydd proffesiynol? Rydym i gyd, bellach, yn ffotograffwyr yn yr oes ddigidol sydd ohoni. Wedi mynd mae'r dyddiau o orfod prynu ffilm ac wedyn mynd ag e i'w ddatblygu ac i gael argraffu'r lluniau. Mae'r oes ddigidol wedi bod yn her ac yn fygythiad i fywoliaeth ffotograffwyr proffesiynol. Rydym ni i gyd yn gallu tynnu lluniau da iawn, ond efallai mwy ar hap a damwain. Ond wedyn gallwn eu gyrru i'r un asiantaethau â'r bois proffesiynol, ac yn aml cânt eu derbyn. Ac mae cystadleuaeth fel hyn wedi bod yn ergyd drom i'r sawl sy'n dibynnu ar ffotograffiaeth am eu bywoliaeth.



**Castell Carreg Cennen  Diolch i *Visit Wales***

Mae Harry yn cofio cael camera pan yn ifanc iawn a mwynhau tynnu lluniau. Yna, wedi gadael Ysgol y Gwendraeth mynd ymlaen i Goleg Celf Casnewydd lle’r oedd y cwrs ar arlunio graffig yn cynnwys elfen am ffotograffiaeth. Cael swydd wedyn am 12 mlynedd gyda Bwrdd Croeso Cymru cyn mynd yn llawrydd a chael gwaith gan nifer o asiantaethau. Ond roedd ei hyfforddiant fel artist yn gwbl allweddol i’w lwyddiant fel ffotograffydd gan roi iddo’r gallu i gyfansoddi llun. Creadigrwydd yw’r hyn mae’n ei alw’n graigwely neu sylfaen i’r gallu i greu ffotograff da.



**Llun o’r hofrennydd. Diolch *Visit Wales***

Mae dyfalbarhad hefyd yn elfen hanfodol. Mae Harry yn ymdebygu ffotograffydd i bysgotwr yn disgwyl yn ddiddiwedd i rywbeth afael yn ei abwyd. Ffitrwydd yw elfen arall, wrth orfod dringo mynyddoedd yn cario offer trwm. Ac, wrth gwrs, mae gofyn am ddeall y tywydd mympwyol.

Mae menter yn elfen arall. Tynnodd Harry nifer o luniau allan o hofrennydd ac mae'n disgrifio'r ffordd mae drws yr hofrennydd yn llithro ar agor o’i flaen ac yntau'n rhoi cyfarwyddiadau i’r peilot ynglŷn â’r ongl mae e eisiau ar gyfer llun. Mae hynny’n golygu ei fod yn agored i’r gwynt cryf ac i’r *downdraught* o lafnau rotor yr hofrennydd. Mae hefyd yn golygu bod yr hofrennydd yn ansefydlog iawn yn y gwyntoedd, sy’n gwneud ffotograffiaeth yn heriol iawn, yn enwedig yn y mynyddoedd.

Ond er bod Harry bellach wedi ymddeol, mae e wrth ei fodd o hyd yn tynnu lluniau, oherwydd wrth ei waith beunyddiol roedd yn gwneud yr hyn oedd yn hoffi ei wneud. Mae hyn yn dangos y gwahaniaeth rhyngddo ef ac amatur. Sef bod yn rhaid i’r gweithiwr proffesiynol gyrraedd y targed bob tro, pan fydd e’n cael cyfarwyddyd i wneud hynny, a hynny ar gyfer dyddiad cau ac i gyllideb neilltuol. Ers ymddeol, mae e nawr yn rhydd i dynnu unrhyw lun sy’n dal ei ddiddordeb.

*Ben a Mary Jones*

# Cerddi Ein Cymuned

Dyma fwy o dribannau a cherddi eraill sy'n ymwneud â Sir Caerffili a'r Cyffiniau. O blith 'Tribannau Morgannwg' Tecwyn Jones ddaw'r ddau driban hyn,

Mae merch ym mhlwy Llanfabon
Na ŵyr riferi'r meibion
Sydd yn ei dilyn nos a dydd –
Ei diwedd fydd trallodion.

Tri dawnsiwr gora 'Nghymru:
Syr Charles o Gefan Mabli,
Sgweier Lewys wych o'r Fan
A Syr John Carn o'r Wenni

A dau bennill arall i chi eu mwynhau

Pawb sydd a'u traed yn sych,
Yma, cewch esgidiau gwych;
Rhai i blant, ac i bob oed,
Fel bo hyd a lled y troed.*

**Hysbyseb gan Thomas Twynog Jeffreys (1844-1911) ar gyfer ei siop esgidiau yn 97 High St Rhymni*

Mae Mari Ifan Harri*
Yn sgwrio a gwasgaru,
A'r llau a'r chwain ar hyd y llawr,
A gwael yw gwawr y gwely.

**Un o drigolion Craig y Fedw, Cwm yr Aber*

Beth am i chi'r darllenwyr yrru un neu ddwy o'ch hoff gerddi atom? Edrychwn ymlaen at eu cyhoeddi cyn bod hir.

# Myfanwy Jarman

Bu cyn-cydweithwyr yn talu teyrnged i Myfanwy Jarman a fu farw ddechrau'r mis mewn cartref gofal yng Llanisien.

Dod i Ysgol Gymraeg Caerffili wedi hyfforddi yn fyfyrwraig hŷn yng Ngholeg Caerdydd wnaeth Myfanwy i ddysgu'r Babanod Canol a'r Babanod Uchaf fel yr oeddent ar y pryd. Teimlai Dorothy Morgan, a fu'n bennaeth arni, fod gan Myfanwy, fel athrawes aeddfed, brofiadau eraill i gynnig i'r plant.

Mae Dorothy yn ei chofio â hoffter a dywed: "Roedd hi'n berson hawddgar a thrwsiadus iawn a bob amser fel pin mewn papur. Roedd llawer gyda hi i gyfrannu i'r plant yn ei dosbarth a phawb, yn cynnwys y plant a'r athrawon, yn meddwl y byd ohoni. Roedd yn llawer gwell ganddi ddysgu llenyddiaeth na chymryd gwersi celf a phaentio. Doedd hi ddim yn hoff iawn o lawer o annibendod yn ei hystafell. Roedd popeth, chware teg iddi, yn hollol drefnus a thaclus." Tri o blant oedd gyda hi. Geraint oedd yr hynaf, wedyn Tanwen, a phan oedd hi ar y staff, roedd Tanwen yn byw yn Hong Kong ac roedd hi'n dweud lot o'r hanes wrthon ni. Pan aeth Catrin, y drydedd i'r ysgol uwchradd yng Nghaerdydd, aeth Myfanwy i'r coleg. Geraint, yr hynaf o'r tri, y cerddor a'r canwr, yw'r mwyaf enwog.

Erbyn i Elizabeth Wales gyrraedd yr ysgol, ei chofio yn yr adran Iau mae hi. "Roedd y plant yn hoff iawn ohoni ac roedd hi'n garedig iawn! Rwy'n meddwl mai drama oedd ei harbenigedd, gan ei bod wedi actio llawer ar y teledu!" Actio yn wir! Mae'r Golygydd yn cofio Myfanwy yn perfformio yn y gystadleuaeth drama un act gyda Mallt Anderson yn Eisteddfod Genedlaethol Llandeilo yn 1996 - gan gipio'r wobr gyntaf.

*Y Golygydd*

# COFIO GRAFFITWYR GWLADGAROL




***Cewch fynd i Ystrad Mynach,Pontypridd, Hirwaun neu i ryddid (os craffwch)***

***Ar wahoddiad Dafydd Islwyn cyhoeddais atgofion o'm magwraeth ym Margod yn ystod y '30-degau a'r '40-degau yn* Tua'r Goleuni *(rhagflaenydd* Cwmni*) yn 2005 a 2006. Soniais am y tri gwrgwladgarol Alf Williams (gwerthwr gyda'r Bwrdd Nwy) a Deri Smith a Dave Pritchard (cyd-weithwyr yn ffatri South Wales Switchgear, Pontllanfraith). Dyma hanes un o'u campau, fel y'i hadroddais yn rhifyn gwanwyn 2021 o'r* Casglwr*, cylchgrawn Cymdeithas Bob Owen.***

***Philip Lloyd***

Pan ddeuthum i adnabod Alf, Deri a Dave yn 1961 roedden nhw wedi bod wrthi'n paentio'r slogan 'Free Wales' mewn safleoedd amlwg, yn y cymoedd yn bennaf. Mynnodd y tri gyda chryn falchder fy mod i'n mynd â nhw yn fy Standard 9 hynafol i wylio eu campweithiau a'u rhoi ar gof a chadw gyda'm camera.




***Platfform glofa Taff Merthyr***

Un o'r safleoedd oedd wal-gynnal ger y man lle'r oedd yr A470 yn croesi Afon Taf ar ei ffordd i Ferthyr Tudful drwy Dreharris, Ynysowen a Throed-y-Rhiw. Nid ugeiniau o flynyddoedd o wynt a glaw barodd i'r enghraifft hon o'u murweithiau ddiflannu ond gwelliannau i'r A470 a dargyfeirio'r rhan honno ohoni yn ffordd ddeuol ar hyd ochr arall y cwm.

Rydw i'n hynod falch o'r llun a dynnais o'r ffens haearn-rhychog a safai y tu ôl i'r platfform lle disgynnai gweithwyr glofa Taff Merthyr o'u trenau ar y rheilffordd rhwng Trelewis a Bedlinog. Roedd hi'n hwyr y dydd, a'r nos yn dechrau cau amdanom. Eisteddodd Deri ar fin y ffordd i fod yn flaendir i'r llun. Gosodais fy nghamera ar drybedd a'i roi ar waith am tua hanner munud (llawer mwy na'r ffracsiwn o eiliad arferol) - a gobeithio. Ond doedd dim rhaid imi bryderu. Pan gyrhaeddodd y print drwy'r post bu llawenydd mawr - fel mae'r ail lun yn cadarnhau.



***Yr ymdrech a wnaed i ail- barchuso'r Barics yn Aberhonddu***

Un safle ymhell o gynefin Alf, Deri a Dave yng Nghwm Rhymni oedd gatiau barics Aberhonddu. I ffwrdd â ni felly yn y Standard 9 dros y Bannau. Ond gwelir oddi wrth y llun (a dynnais yn llechwraidd rhag ofn imi gael fy ngweld gan filwr ar ddyletswydd) fod yr awdurdodau milwrol wedi gwneud eu gorau glas i ddiddymu'r llythrenwaith cyn inni gyrraedd.

Buom hefyd ar hyd y ffordd fawr rhwng Merthyr ac Aberdâr, fel mae'r llun olaf yn dangos.



# Pam Fleur-de-lys?

Mae hen enwau Cymraeg ein cymoedd yn llawn hanes a swyn, ac yn aml yn llawn blas ein hen gymoedd Cymraeg eu hiaith. O Rymni i Flaenafon, a heibio i Hafod-yr-Ynys a Chwm Syfiog, Llanfach ac Eglwysilan... ac yna, yn eu canol, Fleur-de-lys. Beth yn y byd mae enw Ffrangeg yn gwneud yng nghanol Cwm Rhymni? Mae Trelyn, hen enw Cymraeg y pentre, yn cyfeirio at bwll yn yr afon gerllaw'r tai cynnar – ond o le daeth y Ffrangeg? A pham?




Yn llyfr gwych David Thomas, *Enwau Cymraeg Bwrdeistref Caerffili*, fe welwch yr esboniad a gefais i pan oeddwn yn blentyn. Yn ôl yr hanes hwnnw, daeth Hiwgenotiaid draw o Ffrainc yn yr ail ganrif ar bymtheg, a sefydlu yn ardal Trelyn. Protestaniaid oedd y rhain, a erlidiwyd gan frenin Catholig Ffrainc, Louis XIV.

Derbyniais i'r esboniad hwn yn ddi-gwestiwn am flynyddoedd, ac mae'n amlwg i David Thomas ei dderbyn hefyd. Ond mae amheuon wedi codi yn fy meddwl yn ddiweddar. Do, fe ddaeth llawer o Hiwgenotiaid draw o Ffrainc yn y cyfnod hwnnw, ond sefydlu yn Llundain a wnaethant, neu yn nhrefi de-ddwyrain Lloegr. A pham byddai rhai oedd wedi eu herlid gan frenin Catholig Ffrainc yn dewis arddel ei fathodyn, y *fleur-de-lys*, arwydd brenhinoedd Ffrainc ar hyd y canrifoedd?

Esboniad arall yw bod bragdy wedi ei sefydlu yn Nhrelyn, a hwnnw wedi cymryd y *fleur-de-lys* fel ei arwydd. Roedd enw mor dda i'r cwrw fel bod enw'r pentref ei hun wedi newid. Ond ni wyddwn i am enghraifft arall o le yn cael ei enwi ar ôl unrhyw fath o ddiod ar wahân i ddŵr - fel y digwyddodd yn achos trefi'r ffynhonnau o Gaerfaddon i Lanwrtyd.

Mae ymchwil dyfal yr Athro Howard Barnes wedi taflu peth goleuni ar y cwestiwn dyrys hwn. Darganfyddodd adroddiad papur newydd ar refferendwm a gynhaliwyd yn ardal Trelyn ym 1926. Y pwrpas oedd i benderfynu enw'r orsaf newydd oedd yn cael ei hadeiladu yno – Trelyn neu Fleur-de-lys. Dewiswyd Fleur-de-lys, a rhydd yr adroddiad esboniad eithaf credadwy i'r enw, sy'n esbonio'r cysylltiad rhyngddo a brenhinoedd Ffrainc.

Yn ôl yr adroddiad hwn, ffodd peirianwyr o Ffrainc i ardal Trelyn yn ystod Chwyldro 1789. Sefydlon nhw waith metel yno, ar yr union adeg pan oedd diwydiannau metel yn datblygu'n gyflym yn ein cymoedd. Brenhinwyr oedd y peirianwyr hyn, ac roedd yn naturiol felly iddynt ddewis y *fleur-de-lys*, bathodyn y frenhiniaeth, fel arwydd eu ffatri a'i gynnyrch. Naturiol hefyd i bobl ddechrau defnyddio'r arwydd i gyfeirio at ardal y ffatri.



Daeth blynyddoedd o ryfel wedyn rhwng Ffrainc a gwledydd eraill Ewrop. Ond ym 1814 dychwelodd Louis XVIII, un o'r hen deulu brenhinol, i orsedd Ffrainc wedi cwymp Napoleon. Roedd croeso i'r *fleur-de-lys* yn Ffrainc unwaith eto, ac mae'n debyg i'r peirianwyr ddychwelyd i'w gwlad.

Mae hynny'n swnio'n fwy tebygol o lawer i fi na hanes yr Hiwgenotiaid, ond mae canrif a rhagor rhwng cwymp Napoleon ac adroddiad 1926. Tybed a oes rhagor o dystiolaeth rywle i ategu – neu i herio – y dehongliad hwn o enw annisgwyl yr hen "Fflower"?

*Dr Elin Jones*

# Trindod Gymraeg







P’un ai siom neu orfoledd achosodd canlyniadau etholiad y Senedd ddechrau’r mis, mae o leiaf un peth i’w ddathlu. A hynny yw gweld y bydd dwy (nid dau!) o gyn- ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn Aelodau o’r Senedd am y pum mlynedd nesaf.

Ganwyd Delyth Jewell yng Nghaerffili a fe'i magwyd yn Ystrad Mynach. Mynychodd Ysgol Bro Allta ac yna Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Graddiodd o Brifysgol Rhydychen gyda B.A. mewn Llenyddiaeth ac Iaith Saesneg a M.A. mewn Astudiaethau Celtaidd. Yn 2007 roedd yn llywydd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym. Mae’n ferch i Anthony a Siân Jewell.

Am bum mlynedd a hanner bu’n ymchwilydd i aelodau’r Blaid yn San Steffan gan ennill gwobr yr ymchwilydd gorau yn 2012.Cafodd hyn am ei gwaith yn llunio deddfau yn ymwneud â stelcian a thrais yn y cartref. Mae hefyd wedi gweithio mewn Canolfan Gynghori . Cyn ymuno â’r Senedd ysgrifennodd erthygl i’r Independent am gamdriniaeth ac aflonyddu gwleidyddion benywaidd. Mae hi bellach yn lefarydd y Blaid ar Newid Hinsawdd, Trafnidiaeth ac Ynni. Bydd hi'n cysgodi adran newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn ffocysu ar ymateb i'r her mwyaf sy'n wynebu nid dim ond ein cenedl, ond pob cenedl yn y byd. Mae hi’n gyffrous iawn i ddechrau ar y swydd!

Un a fydd yn cyd-weithio â Delyth yw Sioned Williams. Dod yn ail wnaeth Sioned yn etholaeth Castell-nedd ond llwyddodd i ennill sedd drwy’r bleidlais gyfrannol i gynrychioli Gorllewin De Cymru.

Bydd llawer ohonom yn ei chofio fel Sioned Jones a deithiai o Gwmbrân bob dydd i’r Ysgol Gyfun a’i thad yn bennaeth ar Ysgol Gynradd Machen. Mae teulu Sioned oll yn hanu o Rymni, a'i mam-gu Nansi Jones ddechreuodd yr ysgol feithrin Gymraeg gyntaf yn y Cwm yno yn y 1950au. Daeth Sioned atom pan oeddem yn dathlu cyhoeddi dau ganfed rhifyn ein papur bro gan annerch ein noson gymdeithasol yng Nghanolfan y Glowyr. Cafodd ei gwahodd am ei bod yn un o'r tîm yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni a fu'n gyfrifol am gyhoeddi papur bro gyntaf yn ein hardal a hynny ganol y 1980au.

Erbyn hyn mae hi’n byw ar yr Alltwen ger Pontardawe a chyn cael ei hethol i'r Senedd fe fu'n gynghorydd cymunedol a llywodraethwraig ysgol a hi yw golygydd papur bro Cwm Tawe “Llais”. Bu’n newyddiadurwr gyda’r BBC am gyfnod cyn mynd i weithio yn Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, lle bu’n hyrwyddo gwedd Gymraeg y Brifysgol a threfnu gweithgareddau cyhoeddus a chymunedol a chyrsiau ar hanes, diwylliant a llenyddiaeth ein gwlad. Bu'n gweithio yno gyda’i gŵr, Yr Athro Daniel Williams. Mae Daniel yntau’n wleidydd ac wedi sefyll yn etholiadau seneddol San Steffan yn 2017 a 2019.

Fel Delyth, etholwyd Peredur Griffiths yn Aelod Seneddol dros Ddwyrain De Cymru er iddo ddod yn ail yn etholaeth Blaenau Gwent. Yn fab i weinidog gyda’r Methodistiaid mae Peredur Griffiths wedi byw mewn nifer o fannau yng Nghymru. Ac mae ei dad, Y Parchedig Robert Owen Griffiths, wedi bod yn gwasanaethu yn nifer o’n capeli wedi iddo symud i’r ardal hon. Mae Peredur yn byw gyda’i wraig Angela ym Mhenrhos, Caerffili.

Wedi gyrfa lwyddiannus yn yr ysgol aeth Peredur ymlaen i gymryd gradd Meistr mewn Peirianneg ym Mhrifysgol Sheffield, yna bu’n gweithio mewn banciau a chymdeithas adeiladu. Mae nawr gyda Cytûn sy’n cydweithio â’r amryw enwadau yng Nghymru.

Rhwng y tri gallwn ddisgwyl clywed mwy o’r Gymraeg yn ein Senedd o hyn ymlaen yn ogystal â syniadau goleuedig a fydd yn gefn i addewid Mark Drakeford am Senedd radical yn ystod y cyfnod sydd o’n blaenau.




# Dinca Fala

“Ffest y Cybydd” yw’r enw a roddwyd ar un o’r prydiau bwyd rhataf bosibl. Mae’r fersiwn wreiddiol yn defnyddio cynnyrch yr ardd yn unig, a’r llysiau hawsaf i’w tyfu a’u cadw. Y cyfan sydd ei eisiau arnoch yw cwpl o hen datws, winwnsyn neu ddau, a swejen neu gwpl o bannas.

Irwch gaserol dwfn, a rhowch haenau o’r llysiau ynddi, gan orffen gyda haen o datws a gofalu i daenu digon o halen a phupur dros bob haen. Mae halen a phupur yn rhad iawn ac yn rhoi blas i fwyd plaen y cybydd!

Yna arllwyswch tua hanner peint o ddŵr dros y llysiau i gyd, rhowch glawr ar y bowlen, a rhowch y cyfan yn y ffwrn (neu’r popty, wrth gwrs). Yn yr hen amser roedd ffwrn wrth ochr y tân, a byddai pryd fel hwn yn coginio’n dawel fach yn ystod y dydd, yn barod i’w fwyta yn y diwetydd. Heddiw, os oes ffansi gyda chi i “fyw yn gynnil, gynnil” fe fydd yn rhaid i chi roi awr i’r bwyd ar Nwy Marc 6, gyda’r clawr arno, ac yna awr arall, heb glawr, ar Nwy Marc 4. Ond dyma chi bryd di-ffws, amyneddgar iawn. Ni fydd yn waeth o’i adael i ddigoni’n dawel fach am oriau ar wres isel.

Ond pa sôn sydd heddiw am gybyddion? Neu am fyw yn gynnil, gynnil ar gynnyrch eich gardd yn unig? Mae fersiwn 2021 o’r hen rysáit yn defnyddio rhai o’r un cynhwysion, ond yn ychwanegu atynt rhai fyddai’n gwylltio hen gybydd - ac yn dod â dŵr i’w ddannedd!

Felly, rhowch ddarnau o gig moch rhwng yr haenau o lysiau. Mae modd hepgor y swejen a/neu’r pannas nawr ond gofalwch orffen gyda haen o datws. Yna, yn lle dŵr, arllwyswch hanner peint o saws caws dros y cyfan - a’i roi yn y ffwrn, ar yr un gwres ac am yr un amser ag o’r blaen.

Ymhen dwy awr (neu ragor) fe fydd gyda chi wledd o bryd, y llysiau a’r cig wedi toddi i’w gilydd, a’r saws yn euro’r cyfan. Digon i dorri calon hen gybydd – ac i lonni calonnau (a llenwi stumogau) y to ffodus sydd ohoni heddiw!

## ? ? ? CWIS ENWOGION ? ? ?

Dyma enwau deuddeg o enwogion ein gwlad ynghyd â theitlau eu hunangofiannau. Tybed allwch chi gyfateb yr enw â’r llyfr. Cewch yr atebion ar dudalen ola’r papur – ond mentrwch arni cyn troi at yr atebion!

**Yr Enwogion**

Dic Jones    Dafydd Hywel    Angharad Tomos    Dewi Lywyd    Guto Roberts (am un hawdd!)
Dafydd Wigley    T.Llew Jones    Elfyn Llwyd    Sharon Morgan    Elinor Bennet Wigley
Arfon Haines Davies    Carwyn James

**Eu Cofiannau**

Hanes Rhyw Gymraes?    Fy Mhobol i    Mab y Mans    Un o ‘Fois y Pentre’
O ddifri (un o dair cyfrol)    Tannau Tynion    Y Fo – Guto    Betws a’r Byd    Pawb a’i Farn
Os Hoffech Wybod........    Hunangofiant Alff Garnant    Cnonyn Aflonydd

# Trysorau  a Geiriau

Ein dysgwyr brwd yw trysorau'n hiaith, ac mae Merched y Wawr Cwm Rhymni yn ymfalchïo ynddynt, yn enwedig un fam a'i merch. Mo Potter yw Is-Gadeirydd bywiog a gweithgar y gangen, ac mae ei merch, clare, sydd hefyd wedi dysgu Cymraeg, yn fardd o fri yn ei dwy iaith.  Mae clare wedi ennill sawl gwobr, ac yn ddiweddar cafodd ei chomisiynu i ysgrifennu cerdd arbennig fel rhan o ddathliadau hanner canrif Llwybr Clawdd Offa, a sefydlwyd yn haf 1971. Gofynnwyd iddi ysgrifennu am Grib Hergest, a daeth clare atom ar Fai'r 19eg i siarad am ei cherdd, am y cefndir iddi, ac am ei dull o ysgrifennu.



Dechreuodd trwy rannu rhai o'i phrofiadau gyda ni, gan egluro ei bod yn cael ei hysbrydoli'n arbennig gan wrthrychau o'r cyfnod rhwng 1920 a 1960. Mae wedi trefnu ystafell farddoni i'w hun sy'n llawn celfi ac addurniadau o'r cyfnod hwnnw ac sy'n ei chysylltu gyda'u perchnogion gwreiddiol. Yn eu plith mae tri chasyn bach brown. Roedd y lleiaf ohonynt yn eiddo i lyfrgellydd unwaith, ac os yw clare yn cael y gwaith o brydyddu yn anodd, mae'n rhoi ei gwaith ynddo, ac yn mynd ag e gyda hi ar daith. Roedd Joan Didion, un o hoff lenorion clare, yn rhoi ei gwaith yn y rhewgell i'w helpu i ymdopi â bloc ysgrifennwr: mae clare yn mynd â'i cherddi hi am dro yn yr awyr agored.

Felly, wedi cyfnod o fyfyrio yn ei hystafell, aeth clare a'i chasyn o farddoniaeth i gerdded Clawdd Offa. Sefon nhw ar Grib Hergest, a chafodd clare ei swyno gan gylch o goed *araucaria araucana* sy'n tyfu yno ("monkey puzzle" yw'r enw Saesneg arnynt: pinwydden Chile yw'r enw Cymraeg). Teimlodd fod awyrgylch arbennig o fewn i'r cylch hwn o goed mor rhyfedd eu golwg, ond nid oedd y geiriau'n dod ati serch hynny.

Yna penderfynodd fynd i gerdded ac i fyfyrio ar y Comin ym Mhontypridd o fewn y cylch o gerrig lle byddai Iolo Morganwg a'i dderwyddon yn cynnal eu defodau cyfrin. A chyda'r cylchoedd o gerrig ac o goed yn ei hysbrydoli, fe ddaeth y geiriau - a dechreuodd clare ar ei gwaith.

Nid yw'r gerdd wedi ei lansio'n swyddogol eto, ond fe gafodd Merched y Wawr glywed clare yn ei hadrodd, ac fe'n gwefreiddiwyd ni i gyd. Mae pŵer arbennig yn ei geiriau, ac adleisiau clir o orffennol pell. Roedd naws Clawdd Offa i'w theimlo yn y gerdd – tristwch a chreulondeb holl hanes gwaedlyd y ffin a harddwch a llonyddwch yr ardal heddiw.

"Prydydd" oedd yr hen enw Cymraeg ar fardd, ac mae rhai ysgolheigion yn meddwl bod y Cymry yn y dyddiau gynt yn credu bod gan fardd y gallu i newid pryd a gwedd person trwy rym ei eiriau yn unig, fel y mae'r gof, trwy rym ei grefft, yn gallu newid darn o fetel oer yn gryman neu'n gleddyf.

Cawson ni brofi grym geiriau prydydd yn ein cyfarfod. Newidiodd crefft y bardd yr hen gelfi a'r casyn bach brown, y clawdd hynafol a'r llwybr modern, y cylchoedd coed a cherrig yn ysbrydoliaeth i ni i gyd.

Diolch o galon i clare am roi'r fath brofiad unigryw i ni, trwy ein harwain i fewn i feddwl bardd a rhoi golwg newydd i ni ar ein hen, hen hanes.





## Lluniau Grŵp Paentio Dydd Gwener











# Shwt ma'r ardd yn edrych?







A sut mae'r ardd yn edrych erbyn hyn? Wel, ddim hanner cystal ag yr oedd hi'r llynedd yw'r ateb plaen. Eleni mae Ebrill sych dros ben ac yna glaw trwm a chyson Mai wedi rhwystro gwaith yn yr ardd, ac wedi rhwystro'r tyfiant hefyd rwy'n meddwl. Efallai mai fi sydd yn bwdwr (h.y. diog) ond ymddengys fod popeth ar ei hôl hi eleni, ac mae'n bwrw glaw'n drwm wrth i fi ysgrifennu'r geiriau hyn.

Rwy wedi bod yn edrych ar y lluniau a dynnais o'r ardd yr adeg hon y llynedd, ac mae'r gwahaniaeth yn drawiadol. Mae'r pys pêr yn gwneud y pwynt yn glir iawn: yn dechrau dringo'r polion y llynedd, ac eleni yn cuddio wrth eu traed o hyd.

Erbyn ail hanner mis Mai y llynedd roedd rhesi o lysiau wedi eu gosod yn dwt, a'r persli yn ei ogoniant. Ond eleni... wel, mae'r ffa wedi eu plannu, ac ar fin blodeuo erbyn hyn. Ond does dim byd arall wedi ei symud eto o'r potiau bach lle gafodd ei hau - heb fynd o'r meithrin i'r ysgol fawr eto, fel petai.

Ar y llaw arall, mae'r bresych oedd wedi eu plannu ond heb symud ers misoedd wedi tyfu'n gyflym dros yr wythnosau diwethaf, ac rwy wedi tynnu sawl un ohonynt erbyn hyn. Rwy'n torri cwpl o ddail y rhai mwyaf weithiau er mwyn peidio â thynnu'r planhigyn cyfan ar gyfer un pryd. Mae deilen neu ddwy o'u maint nhw yn ddigon i fi. Ac oes, mae blas cryf iddynt, ond jiw, maen nhw'n dda i chi!

Ym mis Mawrth roedd cennin gen i o hyd, rhai oedd wedi sefyll trwy'r gaeaf. Maen nhw i gyd wedi cael eu bwyta erbyn hyn, ac wedi cyfrannu at sawl bowlen o gawl cennin derbyniol iawn yn y nosweithiau oer a gawsom ym mis Ebrill.

Eleni mae N'ad-fi-angof wedi trechu'r persli, ac nid wyf am ei dynnu eto. Mae'r blodau bach glas yn llonni'r llygad a'r galon, ac fe ddiflannant yn ddigon buan nawr fel y byddaf yn gallu chwynnu a phlannu llysiau yn eu lle. Mae'r llysiau gen i – yn blanhigion ac yn hadau – a'r unig beth sydd e eisiau nawr yw'r tywydd!

# Ardal Arthur

***Gareth Madeley***

Mae'r chwedlau Arthuraidd wedi fy nghyfareddu ers o'n i'n fach, yn enwedig y rhai yng nghyfrol "Chwedlau'r Brenin Arthur" gan Rhiannon Ifans. Darllenais y rhain tra'n ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Caerffili, dros ddeg ar hugain o flynyddoedd yn ôl nawr. Roedd 'na lawer o fersiynau o'r stori i'w cael. Mae'r straeon yn boblogaidd yn niwylliant rhyngwladol y byd ers talwm, yn y mileniwm ers i Geoffrey o Fynwy ysgrifennu ei "Hanes Brenhinoedd Prydain". Roedd hwn yn un o lyfrau mwyaf poblogaidd y cyfnod, a gymerodd Gorllewin Ewrop fel storm yn y 12fed ganrif. Mae 'na hyd yn oed fwy o addasiadau i'w cael erbyn heddiw, wrth i boblogrwydd Arthur barhau ym myd teledu, ffilmiau, a chomics.

Rwy 'di darllen a gwylio, llawer o enghreifftiau gwahanol o'r rhain dros y blynyddoedd, ond mae bron pob un yn methu cipio'r elfen sy' bron yn annisgrifiadwy yn y straeon wnaeth Ifans eu hailadrodd: yr awyrgylch ryfedd, wyllt, a welwyd yn y chwedlau cynnar, Brythonaidd. Y chwedlau fydda i'n dadlau sy'n wir sylfaen Arthur, sef y gwreiddiau unigryw Cymreig.



*Mathew Madeley yn mwynhau Mynwy Sieffre*

Ond o ble yn union ddaeth Arthur? Lleolodd Geoffrey o Fynwy ef yng Nghaerllion—Urbe Legionem yn y Lladin, Dinas y Llengoedd Rhufeinig. Dyma'r fan, rwy'n hoff o gredu, lle roedd cartref Arthur, ond pymtheg milltir lawr yr heol o ble ges i fy magu, man rwy'n gyfarwydd iawn ag e ers fy mhlentyndod. Ac os oedd Geoffrey neu ei deulu'n wir yn dod o Fynwy (mae hanes yr awdur ei hun yn aneglur), yna gallwn ni gydymdeimlo efo'i gymhelliad i wneud y fath arwr yn arwr lleol iddo fe. Hefyd, mae cysylltiad Arthur â'r safle Rufeinig mor adnabyddus ac yn gwneud synnwyr gan ystyried ei darddiad tebygol ef, tarddiad mae haneswyr fel Gwyn Alf Williams, yr academydd o Ddowlais, eisoes wedi'i nodi. Yn ôl yr Athro Williams, mwy na thebyg bod yr enw "Arthur" efo'i wreiddiau yn y Lladin, ac mae'n debygol hefyd mai bonheddwr oedd e efo rheng filwrol yn y 6ed ganrif (canrif Arthur y gŵr yn hytrach nag Arthur y chwedlau), efo gwaed Rhufeinig.

Mae 'na lefydd eraill â chysylltiadau efo Arthur - mae gan ein cyd-Geltiaid yng Nghernyw hawl cryf, wrth gwrs. Er, gallwn ni fod yn eitha' siŵr bod y traddodiad o leoli Arthur yn Nindagwl (*Tintagel*) heb lawer o sylfaen dystiolaethol, mae hyd yn oed y straeon hynaf yn cysylltu'r brenin efo llys o'r enw "Celliwig", man sydd yn anadnabyddus i ni heddiw, yn y sir. Mae 'na hefyd sôn am lysoedd Arthur ym Mhen Rhionydd yn Ne-orllewin yr Alban, ac yn yr anheddiad rydyn ni'n adnabod heddiw fel dinas Tŷ Ddewi, yn "Nhrioedd Ynys Prydein" (*"Triads of the Island of Britain"*).

Ond yn ardal Gwent, rydw i'n hoffi meddwl, mae ardal Arthur. Mae 'na ryw swyn mewn meddwl am arwr, am chwedl, mor adnabyddus i'r byd ac mor bwysig i'n diwylliant, yn byw ar y bryniau ac anadlu'r aer sydd mor gyfarwydd, ac mor annwyl, i mi.

***Mae Gareth yn byw ym Machen, efo'i wraig Anna, ei blant Mathew ac Esmé, un gath, a gormod o lyfrau.***

# Colofn Dafydd Islwyn



Yn 2023, gobeithio, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin, yn Llanymddyfri. I godi arian tuag ati, cyhoeddodd pwyllgor apêl Llanfair ar y Bryn, Llanymddyfri a Myddfai gyfrol hardd 'Diferion Dyfri - Llên a Llun'. Y golygydd oedd Handel Jones, Rhandirmwyn - roedd ei ddiweddar wraig yn ferch o Fargod. Ceir yn y gyfrol weithiau beirdd o John Dafydd 1727 hyd at Hendaf Griffiths a anwyd yn 1994. Yn eu mysg mae emynwyr adnabyddus fel Dafydd Jones o Gaio, Thomas Lewis Talyllychau, Morgan Rhys Cilycwm a William Williams Pantycelyn. Mae 'Awn i Fethlehem' a cherdd arall Rhys Prichard, Yr Hen Ficer, i'w darllen yn y gyfrol.

Y gân gyntaf yn y gyfrol hardd ydy 'Hei Mr Urdd' gan Geraint Davies. Fe'i ganwyd ym Merthyr Tudful ym mis Chwefror 1953 pan oedd ei dad, Y Parchedig Alun Davies (1922-72) yn weinidog gyda'r Presbyteriaid yn Nelson a Llanbradach. Symudodd y teulu i Lanymddyfri yn 1956. Ceir hanes cyfansoddi'r gân yn 'Diawl Bach Medrus' - Atgofion Geraint Davies drwy ei ganeuon. Brodor o Fachynlleth oedd y Parchedig Alun Davies ac ar ôl gorffen ei astudiaethau yng Ngholeg Diwinyddol Aberystwyth derbyniodd alwad i'w ofalaeth gyntaf yng Nghwm Rhymni. Cyhoeddwyd ei emyn, 'Anadla Anadl Iôr', telyneg 'Blodau'r Gwanwyn' ac englyn 'Fy Nheulu':

Fy hoff wynfyd yw Lynfa – a Geraint,
  A garaf i'r eitha',
 Mynnaf anwylo Menna
 Ac Emyr difyr a da.

Priododd ef Lynfa Richards o Don Pentre yn 1952. Ganwyd iddynt Geraint, Menna ac Emyr.

Brodor o Landeusant, Llangadog, Sir Gaerfyrddin, oedd Twynog Jeffreys (1844-1911). Daeth ef i fyw i Rymni yn 1987 ac agorodd siop esgidiau yn y dref. Fe drawyd ef yn wael gan wynegon tua 1892 a bu'n gaeth i'w wely am flynyddoedd. Ymddiddorai Twynog mewn barddoniaeth a llenyddiaeth ers ei ieuenctid. Flwyddyn ar ôl ei farwolaeth cyhoeddwyd 'Twynog - Cyfrol Goffa y Diweddar T. Twynog Jeffreys, Rhymni' dan olygyddiaeth Dyfal (1850-1923). Archdderwydd Cymru o 1906 - 23. Yn ei gyfrol dywedwyd am ei gartref 97, High Street, Rhymni - "ni chafodd un cartref erioed yn Rhymni yn agos gynifer o ymwelwyr llengar â phreswylfa Twynog." Roedd y Parchedig J. T. Job (1867-1938), yr emynydd a'r prifardd, o'r farn, "o'r braidd y gellir dweud bod Twynog yn gampwr ar englyn sengl er y ceir ganddo lawer un hapus ddigon...... yn y prif fesurau y canodd ef ei bethau gorau." Yn y gyfrol ceir ei englyn:

Caws Caerffili

Caws Caerffili, bri ei bröydd, - a chaws
  Iachusaf y gwledydd;
 Caws yr oes, caws yw a rydd
 Dwf i'n byd – hufen bwydydd.

Yn 1870 ar ôl priodi y daeth y brodor o Fyddfai, Llanymddyfri, John Lloyd Morgan (1844-74) i fyw ym Mhontlotyn lle y ganwyd ei ddau fab. "Fel Twynog, ymddiddorai yntau mewn barddoniaeth a llenyddiaeth. Yn aml byddai ef, Gelyn Athrod, a'i ffrind pennaf, y bardd Twynog o Landeusant, yn cymharu eu cynhyrchion." Tybed a welodd Twynog y delyneg 'Llygaid Fy Nghariad' a cherdd Gelyn Athrod i Granogwen - ceir detholiad ohoni yn 'Diferion Dyfri'. Meddai amdani yn niwedd un pennill:

Ceir yn y lili ddarlun hardd
O'r ddoniol ferch Cranogwen
Gwyleidd-dra ar ei gruddiau chwardd
Fel anian ar yr heulwen.

Bu'r Parchedig J. Volander Jones (1850-1921), y bardd a'r cymeriad ecsentrig, yn weinidog yn Nhredegar Newydd cyn iddo ymfudo i America. Bu'n gweinidogaethu yn yr America o 1901 hyd 1904 pryd y dychwelodd i weinidogaethu yn ardal Llanymddyfri. Bu'n weinidog ym mhentre' Tŷ Gwyn yng nghyffiniau Pantycelyn cyn symud i fyw i dre Llanymddyfri. Yn 1920 cyhoeddwyd 'Caneuon Volander' ac mae sŵn y Rhyfel Mawr rhwng ei linellau. Yn 'Diferion Difyr' ceir y gerdd 'Y Cleddyf ar y Mur' a phedwar englyn ac un i David Lloyd George.

Mawr yw ei glod, Gymro glân – ei synnwyr
Wna'r Senedd yn benwan;
A'i eirias dafod arian
Yrr y Tŷ yn ferw tân.

Y frawddeg dristaf yn y gyfrol ydy'r un sy'n dweud am J. Volander Jones: "Roedd hefyd ymhlith recriwtwyr mwyaf brwdfrydig y Prif Weinidog, David Lloyd George, adeg y Rhyfel Byd Cyntaf."

Dydd Sul, y 7fed o Fedi 1903, tynnwyd llun y Parchedig John Williams, Bryn Siencyn, Volander Jones, David Lloyd George, John Morris Jones, Llanfairpwll ac eraill o flaen drws ffrynt Pantycelyn. Ymhen y flwyddyn roedd Prydain wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn yr Almaen. Ar y 7fed o Ragfyr 1916 daeth David Lloyd George yn Brif Weinidog. Derbyniodd gefnogaeth y tri arall i ddarbwyllo Cymry ifanc eu bod yn nhraddodiad anrhydeddus Llywelyn Ein Llyw Olaf ac Owain Glyndŵr wrth ymuno â'r fyddin. Bob tro yr edrychaf ar y llun yn 'Diferion Dyfri' byddaf yn chwilio am lun y Parchedig P. J. Beddoe Jones (1898-1981) a fu'n weinidog yn Llanymddyfri o ganol tri degau'r hen ganrif tan ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Darllenaf: "Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf carcharwyd ef a'r bardd Gwenallt yn Dartmoor am fod yn wrthwynebwyr cydwybodol!"

## Colofn y Dysgwyr

**Ann Lewis**

Helo bawb. Gobeithio bod tywydd braf wedi cyrraedd erbyn hyn! Efallai bydd rhai ohonon ni'n mynd i hwylio dros yr haf. Mae cerdd y mis yma am hwylio o gwmpas arfordir Cymru o'r de i'r gogledd. Dyn o'r enw J Glyn Davies ysgrifennodd y gerdd, dyn diddorol mae'n werth darllen ei hanes. Fe dreuliodd e lawer o'i fywyd ar y môr ac ysgrifennu cerddi poblogaidd am forio fel **Fflat Huw Puw**.

Sylwch ar enwau Cymraeg yr ynysoedd sy ar arfordir Cymru:

Ar arfordir Sir Benfro : Ynys Sgogwm – *Skokholm* ac Ynys Sgomar – *Skomer*
Ar arfordir Llŷn : Ynys Enlli – *Bardsey* ac Ynysoedd Gwylan

### Heibio Ynys Sgogwm : J Glyn Davies

Heibio Ynys Sgogwm:
Llong yn hwylio'n hwyrdrwm.

Heibio Ynys Sgomar
Llong yn mynd fel stemar.

Dal i'r de-orllewin,
Adre bob yn dipyn.

Tacio'n ôl i'r gogledd,
Adre'n syth o'r diwedd.



Cwrs am Ynys Enlli;
Hwylio'n syth amdani.

Heibio 'Nysoedd Gwylan,
Llanw'n mynd ar garlam.

Hwylio drwy Swnt Enlli;
Llanw'n mynd fel cenlli.

Gwynt yn deg am
G'narfon,

*hwylio : to sail* *arfordir : coast* *mae'n werth : it's worth* *morio : to sail the seas*
*hwyrdrwm : heavily laden* *llanw : tide* *ar garlam : at a gallop* *swnt : strait* *cenlli(f) : a deluge*


# David Wynne (1900-1983)



Yn ei theyrnged i Osian Ellis (1928-2021), Dewin y Tannau, dywedodd Elinor Bennett: "Ysgrifennodd sawl cyfansoddwr weithiau newydd iddo gan gynnwys William Mathias, Alun Hoddinott, Rhian Samuel, David Wynne ac eraill. Yng Nghydymaith Caneuon Ffydd, wrth drafod yr emyn dôn 'Pantyfedwen' gan Eddie Evans cofnodir ".... yn yr ail safle gosodwyd tôn Eddie Evans yn wreiddiol gan y beirniad Ian Parrott, athro cerdd Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth. Ymddengys mai'r wythawd oedd i ganu'r dôn arobryn a berswadiodd y beirniad i ail- ystyried am y teimlent nad tôn gynulleidfaol mo'r un a osodwyd ar y brig yn wreiddiol."

Yn 'Barn', rhifyn cyntaf Ionawr 2020/21 datgelir taw'r cyfansoddwr a allai fod wedi cadw 'Pantyfedwen' yn y cysgod oedd neb llai na David Wynne o Faes-y-cwmwr. Yn ei erthygl, 'Cyfres Arwyr Angof', yn ôl Geraint Lewis, cerddor na chafodd y sylw haeddiannol fel cyfansoddwr blaengar ydy'r gŵr a chanddo ran annisgwyl yng ngenedigaeth un o'r emynau Cymraeg enwocaf.

Bu David Wynne (1900-83) yn athro cerddoriaeth yn Ysgol Lewis, Pengam o 1929 tan 1961. Bu'n dysgu cyfansoddi yn y Coleg Cerdd a Drama a'r brifysgol yng Nghaerdydd ar ôl ymddeol o Bengam tan 1980. Ganwyd ef ym Mhenderyn, a'i fagu yn Llanfabon. Bu'n gweithio mewn siop groser leol ar ôl gadael yr ysgol yn bedair ar ddeg oed, cyn dilyn ei dad i weithio ym mhwll glo yr Albion, Cilfynydd. Taniwyd ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth pan brynodd ei chwaer biano ar ddiwedd y Rhyfel Mawr. Yn 1925 gadawodd ei waith fel colier ar ôl ennill ysgoloriaeth arbennig i astudio cerddoriaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Hyfforddwyd ef yn athro ym Mryste. Yn 1929 penodwyd ef yn athro ym Mhengam. "Yr athro cerdd llawn amser cyntaf mewn ysgol ramadeg yng Nghymru."




Yn ôl *'The History of Lewis School, Pengam'* gan Arthur Wright (1927), un o benderfyniadau cyntaf y prifathro newydd, Mr L. S. Knight, oedd datblygu Adran Gerddoriaeth yr ysgol trwy gael athro llawn amser i ddysgu'r pwnc. Penodwyd David Ewart Parry-Williams (1900-1906) yn athro cerdd yn 1927. Brodor o Lyn Nedd oedd ef a fu'n fyfyriwr yn y brifysgol yng Nghaerdydd. Pan benodwyd ef yn ddarlithydd yn Adran Addysg ei hen goleg y daeth David Wynne i Bengam - Gandhi y galwai'r disgyblion ef.

Yn ôl y gyfrol, *'Lewis School, Pengam, A History'* gan Ewart Smith (2013), ni chafodd David Wynne drafod ei waith comisiwn, Symffoni Rhif 2 gan Gild Hyrwyddo Cerddoriaeth Gymreig ar Faes y Genedlaethol, Aberdâr 1956. Er ei fod yn Gymro Cymraeg, penderfynodd gyflwyno ei ddarlith yn Saesneg gan ei fod wedi arfer trafod ei waith ynddi. Gan fod Rheol yr Iaith Gymraeg mewn grym ers Caerffili 1950 bu rhaid iddo ei thraddodi mewn festri capel hanner milltir o'r Maes. Fe chwaraewyd y Symffoni gan Gerddorfa Symffoni Llundain am gost o £700 yn y Pafiliwn.

Gan mai prin iawn yw'r perfformiadau o waith David Wynne bellach, yn ôl Geraint Lewis, "Mae'r arwr o athro yn beryglus o agos at fynd yn gyfansoddwr angof!"

*Dafydd Islwyn*

# ? ? ? CWIS yr ENWOGION ? ? ?

| | |
|---|---|
| Dic  Jones | Os Hoffech Wybod........ |
| Dafydd Hywel | Hunangofiant Alff Garnant |
| Angharad Tomos | Cnonyn Aflonydd |
| Dewi Lywyd | Pawb a'i Farn |
| Dafydd Wigley | O ddifri (un o dair cyfrol) |
| T.Llew Jones | Fy Mhobol i |
| Guto Roberts | Y Fo – Guto |
| Elfyn Llwyd | Betws a'r Byd |
| Sharon Morgan | Hanes Rhyw Gymraes? |
| Elinor Bennet Wigley | Tannau Tynion |
| Arfon Haines Davies | Mab y Mans |
| Carwyn James | Un o 'Fois y Pentre' |


## PWYLLGOR a SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannol gan **Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamarycwmni@yahoo.com 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920885151

**Dosbarthu a Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Y Pwyllgor:** Eirlys Thomas, Gareth W.Williams, Dilys Williams, **Cynorthwy-ydd:** Jan Penney

**Hysbysebu:** Bethan Ollerton Jones, Menter Iaith **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** Menter IaithSir Caerffili.cymru/ Cwmni

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru/ benamarycwmni@yahoo.com



**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid  erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**